

**Contract Llogi ar gyfer Canolfan Gymunedol xxxxxxx**

Enw'r Sefydliad sy'n Llogi .....  
Enw Cyswllt .....  
Cyfeiriad cyswllt .....  
.....  
.....  
Rhif ffôn cyswllt. ....  
Ystafell/Cyfleuster sydd ei angen .....  
Dyddiad(au) gofynnol .....  
Amser(au) gofynnol .....  
Hyd y cyfnod Llogi .....  
(e.e. wythnos; 4 wythnos; blwyddyn)  
Cost Llogi -      Blaendal .....      Balans .....

(Nid yw cost storio offer wedi'i gynnwys yn y gost uchod. Mae angen gwneud trefniadau arbennig gyda'r pwyllgor, os oes angen ardal storio, a allai achosi costau ar wahân.)

**Amodau Llogi**

**Gweler drosodd am restr lawn o amodau llogi.**  
**Mae arwyddo yn awgrymu eich bod yn deall ac yn derbyn yr amodau**  
**llogi a Chynllun Gweithredu Brys Arweinwyr y Grŵp yn llawn.**

(Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

Gwiriad Yswiriant  Gwiriad DBS  Cymhwyster  Wedi derbyn Allweddi

Llofnodwyd ar ran y Ganolfan Gymunedol .....

Llofnodwyd gan yr Huriwr .....Dyddiad.....

Sylwer o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 fod gan y pwyllgor rheoli enwau a chyfeiriadau'r hurwyr ar gofnod. Mae'r cofnod hwn i'w ddefnyddio gan y pwyllgor yn unig ac nid yw ar gael i unrhyw drydydd parti. Yn unol â'r ddeddf uchod, cysylltwch â'r pwyllgor os hoffech i'ch manylion gael eu dileu o'r cofnod.

## Amodau Llogi

1. Bydd yr HURIWR yn gwneud trefniadau i sicrhau na fydd unrhyw hawliadau trydydd parti yn eu herbyn/yn erbyn ei sefydliad wrth ddefnyddio'r ganolfan gymunedol. (Mae'r pwyllgor rheoli wedi'i ddiogelu yn erbyn unrhyw hawliadau sy'n codi o'i esgeulustod ei hun.)
2. Bydd yr HURIWR, yn ystod y cyfnod hurio, yn gyfrifol am oruchwylio'r eiddo, diogelu ffabrig a chynnwys yr adeilad rhag niwed ac ymddygiad cywir gan yr holl bobl.
3. Mae'r HURIWR yn derbyn cyfrifoldeb am ddychwelyd celfi ac offer i'w leoliad gwreiddiol ac am ddiffodd yr holl oleuadau a chau holl ddrysau a ffenestri'r adeilad fel y cyfeiriodd y pwyllgor rheoli.
4. Bydd yr HURIWR yn sicrhau bod yr eiddo a'r ardal o'i gwmpas wedi'u gadael yn lân ac yn daclus, gan gynnwys cael gwared ar unrhyw sbwriel. Dylid gadael y toiledau mewn cyflwr glân a hylan, gydag unrhyw napcynnau budr a ddefnyddiwyd wedi'u taflu.
5. Bydd yr HURIWR yn gyfrifol am gael gafael ar unrhyw drwyddedau angenrheidiol sy'n gysylltiedig â'r hurio, ar wahân i'r rhai hynny sydd eisoes gan y pwyllgor rheoli.
6. Bydd yr HURIWR yn gyfrifol am gadw at yr holl reoliadau sy'n berthnasol i'r eiddo fel y gweithredir gan Drwydded Dinas a Sir Abertawe, Cyfiawnderau Trwyddedu, yr Awdurdod Tân, neu fel arall.
7. Ni fydd yr HURIWR yn isosod neu'n defnyddio'r eiddo ar gyfer unrhyw ddiben anghyfreithlon, na gwneud unrhyw beth, na dod ag unrhyw beth ar yr eiddo a allai beryglu'r eiddo, defnyddwyr eraill, nac unrhyw bolisiau yswiriant sy'n berthnasol i hynny.
8. Bydd yr HURIWR yn trefnu yswiriant er mwyn indemnio'r pwyllgor rheoli yn erbyn unrhyw hawliadau sy'n ymwneud â chost atgyweirio unrhyw ddiffrod i'r adeilad, ei dir amgylchynol a'r cynnwys o ganlyniad i'r cyfnod hurio.
9. Ni fydd yr HURIWR yn cynnal unrhyw weithgaredd gwneud elw ar yr eiddo, ar wahân i godi arian ar gyfer grwpiau neu achosion elusennol neu i adfer treuliau darparu gwasanaeth cymunedol, neu o ganlyniad i gytundeb blaenorol gyda'r pwyllgor rheoli. Mae'n rhaid i bob gwerthiant nwyddau gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth Masnachu Deg ac unrhyw gôd ymarfer lleol a gyflwynwyd yn gysylltiedig â gwerthu. Yn benodol, bydd yr huriwr yn sicrhau bod pris y nwyddau a gwasanaethau yn cael eu harddangos yn glir, yn ogystal ag enw a chyfeiriad y trefnydd.
10. Bydd yr HURIWR yn sicrhau bod gan unrhyw offeryn trydanol teithiol a ddefnyddir ar yr eiddo dystysgrif prawf cyfredol a bod gan bob eitem sticer/label ei hun.

11. Bydd yr HURIWR yn sicrhau na chaniateir lluniau oni bai y derbynnir caniatâd ymlaen llaw gan y rhiant/gofalwr os bydd personau o dan 18 oed yn bresennol.
12. Bydd yr HURIWR yn sicrhau nad yw'r cyfleusterau yn cael eu defnyddio am gyfnodau hwy na ddatganwyd ar y ffurflen cadw lle. Wrth gadw lle, dylai hurwyr ganiatáu amser i baratoi'r gweithgaredd a thacluso ar ôl y gweithgaredd, gan y gellir codi tâl ychwanegol os bydd oedi.
13. Bydd yr HURIWR yn gyfrifol am hysbysu ei ddefnyddwyr o leoliadau'r allanfeydd tân a'r gweithdrefnau os bydd tân/argyfwng arall, a sicrhau bod pob drws, coridor ac allanfa yn glir ac yn barod i'w defnyddio mewn argyfwng.
14. Ni fydd yr HURIWR yn defnyddio'r cyfleuster am unrhyw bwrpas ar wahân i'r pwrpas yr huriwyd y cyfleuster. Nid yw'r pwyllgor rheoli yn gyfrifol am unrhyw ddifrod, anaf neu golled a achoswyd neu a gafwyd gan yr huriwr neu unrhyw berson arall sy'n defnyddio'r cyfleuster, os oedd yn anaddas ar gyfer y pwrpas yr huriwyd y cyfleuster.
15. O ran hysbysebu a hyrwyddo digwyddiadau, ni ddylai'r HURWYR osod posteri yn lleol o dan unrhyw amgylchiadau.
16. Os bydd unrhyw gyfnod hurio yn cael ei ganslo o ganlyniad i dorri unrhyw amodau'r hurio, bydd yr HURIWR yn parhau i fod yn gyfrifol am y costau sy'n ddyledus ar gyfer y cyfnod hurio, ond heb ragfarn i unrhyw hawliad y gall fod gan y pwyllgor rheoli/Dinas a Sir Abertawe yn erbyn yr huriwr o ganlyniad i dorri'r amodau.
17. Yr HURIWR sy'n gyfrifol am bob unigolyn yn ei grŵp tra yn yr adeilad a bydd yn sicrhau bod pob unigolyn yn cadw at Bolisi Dim Ysmygu'r Cyngor a Rheoliadau Eiddo Di-fwg etc. (Cymru) 2007 (sylwer ar yr hysbysebion a'r wybodaeth ar yr hysbysfyrdau).
18. Os yw'r HURIWR yn GRŴP DEFNYDDWYR yna mae'n rhaid cadw at gymal 9 y cyfansoddiad.
19. Yr HURIWR sy'n gyfrifol am wacáu'r adeilad os bydd argyfwng fel yr amlinellir yng Nghynllun Gweithredu Brys yr Arweinwyr Grŵp.
20. Mae gan y pwyllgor rheoli'r hawl i ganslo'r cyfnod hurio os nad yw'r amodau'n cael eu bodloni gan yr HURIWR.
21. Dylid canslo lle trwy'r ysgrifennydd cadw lle gyda rhybudd o leiafswm o 48 awr. Os bydd lle yn cael ei ganslo o fewn 48 awr heb unrhyw rybudd ymlaen llaw, mae gan y Pwyllgor Rheoli'r hawl i godi tâl am gadw lle.